Gwylio'r haul yn machlud

(dewrder / helpu eraill / bod yn barod i sefyll yn gadarn)

Bnawn Sul 11 Chwefror 1990, am bedwar o'r gloch, roedd y byd yn dal ei wynt. Roedd pobl ar bob cyfandir yn edrych ar y teledu neu'n gwrando ar y radio am y newydd. Disgwyl roeddan nhw am y newyddion am y carcharor politicaidd enwocaf yn y byd. A dyma'r newydd yn dod. "Mae Nelson Mandela wedi ei ryddhau o'r carchar."

Am saith mlynedd ar hugain carcharwyd Mandela yn un o garchardai De Affrica. Gwrthododd droi ei gefn ar ei ymgyrchoedd dros y dynion a'r merched tywyll eu croen a'u hawliau. Roedd llywodraeth De Affrica wedi cynnig ei ryddhau droeon os byddai'n gadael y wlad a gwrthod brwydro dros ei bobl. Gwrthododd yntau bob tro. Bellach roedd wedi llwyddo. Roedd yn cael ei ollwng yn rhydd heb amodau o gwbl. Roedd yn ddyn rhydd!

Am flynyddoedd roedd De Affrica yn cael ei llywodraethu gan y bobl wyn. Nhw oedd y bobl gyfoethog oedd yn gormesu'r bobl dywyll eu croen, dlawd. Y nod oedd cadw'r bobl ddu a'r bobl wyn ar wahân. Yr enw a roddid ar hyn oedd apartheid. Y bobl wyn oedd yn rheoli popeth yn y wlad – y llywodraeth a'r ffordd o fyw. Ar hyd y blynyddoedd brwydrodd Mandela'n galed a chyson tros y dyn du. Astudiodd i fod yn gyfreithiwr a bu'n amddiffyn y bobl ddu oedd yn cael eu cyhuddo o dan gyfreithiau apartheid. Arweiniodd sawl ymgyrch a gorymdeithiodd dros y dyn du ei groen. Ond credai nad trwy drais yr oedd ennill y dydd. Ond dyna oedd ffordd llywodraeth y wlad. Roedd eu pobl yn chwipio, curo a threisio'r protestwyr du eu croen. Roedden nhw hyd yn oed yn eu saethu a'u lladd.

Penderfynodd Mandela fod rhaid brwydro'n ôl a bu'n annog ei bobl i ymosod. Carcharwyd Mandela sawl tro am ei ddaliadau ac yna'i ryddhau. Ond gwaethygu roedd y sefyllfa. Roedd heddlu'r llywodraeth ar ei warthaf. Symudai yntau o gwmpas y wlad yn annog ei bobl. Yna, ar y 5 Awst 1962, cafodd ei ddal. Bu ef ac arweinwyr eraill o flaen eu gwell. Siaradodd Mandela ar ran ei bobl, "Rwyf wedi annog fy mhobl i ddefnyddio dulliau di-drais. Ond mae eich llywodraeth chi wedi'n gwthio i weithredu'n wahanol. Mae'n rhaid i ninnau bellach ddefnyddio trais i gael y maen i'r wal." Roedd yn amlwg nad oedd Mandela a'i gyd-arweinwyr yn cael eu

trin yn gyfreithlon gan y llys. Bu protestio mawr gan bobl drwy'r byd i gyd. Mae'n bur debyg fod y protestio hwn wedi arbed Mandela a'i ymgyrchwyr rhag cael eu lladd. Yn hytrach, cawsant garchar am oes.

Yn ystod y saith mlynedd ar hugain yn y carchar roedd Mandela'n dal i helpu, gwrando a chynghori ei gyd-garcharorion. Roedd hyd yn oed y gwarchodwyr yn dangos parch tuag ato. Byddai rhai ohonyn nhw'n mynd ato am gyngor neu gymorth. Gan fod ganddo ddiddordeb mewn cerddoriaeth byddai'n trefnu cyngherddau i'w gyd-garcharorion. O gwmpas y Nadolig byddai yntau a'r carcharorion yn canu caneuon ei wlad, yn arbennig canu corawl y wlad. Ymhlith yr holl leisiau roedd gan Mandela un ffefryn a hwnnw oedd llais Paul Robeson – hwn yn sicr oedd ei arwr.

Daeth tro ar fyd yn Ne Affrica a daeth llywodraeth newydd i rym. Rhyddhawyd Mandela a'i gyd-arweinwyr. Mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen yn Ne Affrica. Mae llawer o waith i'w wneud dros hawliau'r dyn du o hyd. Mae Mandela yn dal ar flaen y gad er ei fod wedi ymddeol o fywyd cyhoeddus ers Mehefin 1999. Mae'n byw yn yr ardal lle y cafodd ei eni, sef Qunu, Transkei.

Adnod: "Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digoni." Mathew 5:6

Gweddi: O Dduw, pan fydda i'n drist a digalon, helpa fi i feddwl am bobl fel Mandela sy'n cael eu carcharu ar gam. Amen.

Trafod:

- Pa eiriau fuasech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio Mandela?
- Fedrwch chi feddwl am wledydd eraill lle mae yna densiwn rhwng gwahanol garfanau o bobl?